OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 416 (Cy.60)

# AFON, CYMRU

## PYSGODFEYDD EOGIAID A PHYSGOD DŴR CROYW

## Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *26 Chwefror 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Mawrth 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 1(1) o Ddeddf Pysgod Byw (Cymru a Lloegr) 1980(**1**) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw; ac, yn unol ag adran 1(2) o'r Ddeddf honno, ar ôl ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac English Nature ac unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol; ac am ei fod o'r farn y gallai'r rhywogaethau o bysgod byw y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddynt gystadlu ag unrhyw bysgod dŵ r croyw, pysgod cregyn neu eogiaid yng Nghymru, neu eu disodli, eu hysglyfaethu neu niweidio eu cynefin, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Teitl, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 1 Mawrth 2003.

(2) Mae'r gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio**

**2.** Diwygir Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) 1998(**2**) fel a ganlyn —

(a) yn Erthygl 2 (sy'n gwahardd cadw neu ollwng pysgod penodedig ac eithrio o dan drwydded) yn lle'r geiriau "the Minister" rhoddir y geiriau "the National Assembly for Wales"; a

(b) yn lle'r Atodlen (sy'n pennu'r rhywogaethau o bysgod y gwaherddir eu cadw neu eu gollwng ac eithrio o dan drwydded) rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 1980 p.27. Trosglwyddwyd pwerau'r Gweinidog o dan adran 1 o'r Ddeddf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 2 iddo (O.S. 1999/672).

(**2**) O.S. 1998/2409.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

26 Chwefror 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

ERTHYGL 2(B)

## "SCHEDULE

SPECIES OF FISH WHOSE KEEPING OR RELEASE IN ANY PART OF WALES IS PROHIBITED EXCEPT UNDER AUTHORITY OF A LICENCE GRANTED BY THE NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

| COMMON NAME | SCIENTIFIC NAME |
|---|---|
| Asp | Aspius aspius |
| Barbel species | species of the genus Barbus (excluding The native Barbus barbus) |
| Bass species (including striped bass, white bass and their crosses e.g. hybrid striped bass) | species of the genus Morone |
| Big-head carp | Aristicthys nobilis |
| Bitterling | Rhodeus sericeus/Rhodeus amarus |
| Blacknose Dace | Rhinichthys atratulus |
| Blageon | Leuciscus souffia |
| Blue Sucker | Cycleptus elongatus |
| Blue bream | Abramis ballerus |
| Burbot | Lota lota |
| Catfish | species of the genera Ictalurus, Amerius and Silurus |
| Charr species (including American Brook Trout) | species of the genus Salvelinus (excluding the native alvelinusalpinus) |
| Chinese black or snail-eating carp | Mylopharyngodon piceus |
| Chinese Sucker (also known as Zebra Hi Fin, banded shark/sucker) | Myxocyprinus asiaticus |
| Common White Sucker | Catostomus commersoni |
| Danubian bleak | Chalcalburnus chalcoides |
| Danubian Salmon & Taimen | species of the genus Hucho |
| Eastern Mudminnow | Umbra pygmaea |
| European Mudminnow | Umbra krameri |
| Fathead minnow (or Roseyreds) | Pimephales promelas |
| Freshwater minnow, Dragon fish or Pale chub | Zaacco platypus |
| Grass carp | Ctenopharyngodon idella |
| Landlocked salmon | non-anadromous varieties of the species Salmo salar |
| Large-mouthed black bass | Micropterus salmoides |
| Marbled trout | Salmo marmoratus |

| COMMON NAME | SCIENTIFIC NAME |
|---|---|
| Nase | Chondrostoma nasus |
| Northern Redbelly Dace (common minnow) | Phoxinus/Chrosomus eos |
| Pacific salmon and trout (excluding rainbow trout but including steelheads) | Species of the genus Oncorhynchus |
| Paddlefish | species of the genera Polyodon and Psepherus |
| Perch species | species of the genus Perca (excluding the native Perca fluviatilis) |
| Pike-perch (including zander) | species of the genus Stizostedion |
| Pike species | species of the genus Esox (excluding the native Esox lucius) |
| Red shiner | Cyprinella/Notropis lutrensis |
| Rock bass | Ambloplites rupestris |
| Schneider | Alburnoides bipunctatus |
| Silver carp | Hypophthalmichthys molitrix |
| Snakeheads, Northern or Chinese | Channa argus |
| Small mouth bass | Micropterus dolomieu |
| Southern Redbelly Dace (common minnow) | Phoxinus/Chrosomus ertythrogaster |
| Sturgeon or sterlet | species of the genera Acipenser, Huso, Pseudoscaphirhynchus and Scaphirhynchus |
| Sunbleak (Sundace), also known as Belica or Motherless Minnow | Leucaspius delineatus |
| Sunfish, including Pumpkinseed, (also basses crappies & bluegills) | Species of the genus Lepomis |
| Topmouth gudgeon | Pseudorasbora parva |
| Toxostome (or French nase) | Chondrostoma toxostoma |
| Vimba | Vimba vimba |
| Weather fish | Misgurnus fossilis |
| Whitefish species | species of the genus Coregonus (excluding the native Coregonus lavaretus and Coregonus albula)" |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) 1998 ("Gorchymyn 1998"), mewn perthynas â Chymru —

(1) drwy ddarparu mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yr awdurdod trwyddedu mewn perthynas â'r gwaharddiad yng Ngorchymyn 1998 ar gadw neu ollwng pysgod penodedig ac eithrio o dan drwydded (erthygl 2(a)); a

(2) drwy roi Atodlen newydd yn lle'r un a gynhwysir yng Ngorchymyn 1998 sy'n pennu'r rhywogaethau o bysgod y bydd y Gorchymyn hwnnw yn gymwys iddynt (erthygl 2(b)). Mae'r Atodlen newydd yn ychwanegu at y rhywogaethau a bennwyd yn yr Atodlen wreiddiol.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn a'i adneuo yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir cael copïau oddi wrth y canlynol:
Y Gangen Bysgodfeydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ